Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# Canllaw i wasanaeth gwybodaeth y sector Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

## Pwy ydym ni

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yma i sbarduno arloesedd ysbrydoledig mewn gwyddorau bywyd yn rheng flaen iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ein nod yw cefnogi'r GIG a'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach i fabwysiadu syniadau a thechnolegau newydd, gan helpu i wella canlyniadau gofal ac iechyd i bobl ledled Cymru.

Rydyn ni'n cysylltu unigolion a sefydliadau o ddiwydiant, gofal iechyd, gofal cymdeithasol a'r byd academaidd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl, eu teuluoedd a'u busnesau. Drwy ddod â'r bobl iawn at ei gilydd, rydyn ni'n creu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer cydweithio, partneriaethau ac arloesi. Ein gweledigaeth yw i Gymru fod y lle blaenllaw ar gyfer datblygu a darparu arloesedd ym maes iechyd, gofal a llesiant.

Ein prif ffocws yw gwrando ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen i nodi anghenion hanfodol a'u paru â datblygiadau arloesol effeithiol er mwyn gwella Cymru. Mae ein dull gweithredu wedi'i deilwra, sy'n defnyddio ein profiad helaeth, yn sicrhau'r canlyniadau gorau. Mae ein tîm Gwybodaeth y Sector yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflawni'r weledigaeth ac mae'n cynnwys dau grŵp arbenigol: **Cyllid a Gwybodaeth am y Farchnad.**

## Cymorth Cyllid

Mae ein tîm Cyllid yn helpu arloeswyr i lywio drwy’r dirwedd gymhleth o grantiau ar gyfer prosiectau iechyd a gofal cymdeithasol. P'un a ydych chi newydd gael syniad neu'n paratoi i gyflwyno cynnig, gallwn eich cysylltu chi â'r cyfleoedd grant cywir, partneriaid posibl, a chonsortia i gefnogi cynigion cydweithredol.

Gyda mynediad at gronfa ddata gynhwysfawr o ffynonellau cyllido, rydyn ni’n eich arwain tuag at y cyfleoedd sy'n cyd-fynd orau â nodau eich prosiect, gan sicrhau bod gan eich syniad arloesol y siawns orau bosibl o lwyddo.

Er nad ydyn ni’n darparu gwasanaeth ysgrifennu ceisiadau ar hyn o bryd, gallwn ni adolygu eich cynigion drafft a chynnig adborth adeiladol gyda phrawf ddarllen, golygu a chyngor. Cysylltwch â ni drwy anfon e-bost i funding@lshubwales.com

*Sylwch nad ydym yn cefnogi ceisiadau anghydweithredol o ddiwydiant a allai dorri rheoliadau cymhorthdal, na cheisiadau nad ydynt yn bodloni’r meini prawf cyllido perthnasol.*

## Gwybodaeth am y Farchnad

Mae gwybodaeth am y farchnad yn cynnwys casglu a dadansoddi gwybodaeth am dueddiadau’r farchnad, anghenion cwsmeriaid, cystadleuwyr, a thirwedd ehangach y diwydiant. Rydyn ni'n cyfuno data, o rifau caled i wybodaeth a phrofiadau yn y byd go iawn, er mwyn creu darlun clir o'r amgylchedd y mae busnes yn gweithredu ynddo.

Mae'r wybodaeth hon yn amhrisiadwy wrth ddatblygu cynhyrchion neu wasanaethau newydd. Mae'n helpu i lunio eich strategaeth, nodi risgiau posibl, a chanfod cyfleoedd ar gyfer twf. Ar ben hynny, mae'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu achosion busnes cryf, ceisiadau am gyllid, a chamau nesaf arloesi. Mae ein cymorth yn cynnwys:

1. **Nodi datblygiadau arloesol**
   Chwilio am gynhyrchion a thechnolegau newydd sy'n gallu diwallu anghenion gofal iechyd penodol, gan weithio gyda gweithwyr proffesiynol i asesu eu potensial.
2. **Gwybodaeth y sector**
   Casglu a dadansoddi data ar dueddiadau, marchnadoedd ac anghenion cwsmeriaid i helpu i lywio strategaeth, canfod risgiau a chyfleoedd, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu achosion busnes.
3. **Dealltwriaeth o'r farchnad**
   Dadansoddiad o farchnadoedd gofal iechyd Cymru, y DU a'r byd i nodi cryfderau, bylchau a chyfleoedd.
4. **Cyngor arbenigol**
   Canllawiau ar eiddo deallusol a pharodrwydd i fuddsoddi drwy arbenigedd mewnol ac ymgynghorwyr arbenigol.
5. **Cefnogi achosion busnes**
   Arwain eich syniadau i achosion busnes strwythuredig ac ar safon y llywodraeth i gefnogi'r broses o fabwysiadu.

**I gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau cymorth, ewch i: Cymorth arloesi.**